IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 17 MAI 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Taylor a/ac Wood |

## 57 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 58 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - DICKENS, HEOL CHARLES

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Haydn Price, Partner<br>Peter Barry, Partner<br>Andrew Picken, Rheolwr |
| Pobl Eraill â Diddordeb: | Matthew Phipps, Cyfreithiwr ar ran Richard Williams<br>Richard Williams |

Cais:

Derbyniwyd cais am drwydded safle oddi wrth Charles Street Dining Ltd mewn perthynas â Dickens, 48 Heol Charles, Caerdydd, CF10 2GF.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:
(ii) Darparu adloniant a reoleiddir ar ffurf cerddoriaeth a recordiwyd (dan do) a pherfformiad dawns (dan do);
(iii) Darparu lluniaeth hwyr y nos:

Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

'Ystafell de a chegin, yn darparu lluniaeth a phrydau ysgafn wedi eu lleoli ym mhrif ffordd drwodd ganol y ddinas. Mae'r safle'n cynnwys un brif ystafell, wedi'i rhannu rhwng byrddau a chadeiriau (y rhan gefn) gyda chadeiriau breichiau mwy cyfforddus, soffa a byrddau isel ar flaen yr ystafell. Mae cwrt bach amgaeedig y tu allan yng nghefn yr adeilad. Mae yna ddau gownter bwyd wedi'u hoeri a chegin sy'n gweithio'n llawn. Roedd y safle â thrwydded lawn ar gyfer ciniawyr ac adloniant wedi'i reoleiddio tan ddiwedd 2018 pan derfynodd y busnes blaenorol â masnachu. Mae'r holl amodau trwyddedig a osodwyd ar y busnes blaenorol, megis TCC llawn gyda recordio 30 diwrnod, eisoes wedi'u gosod ac yn gweithredu'n llawn. Gofynnir i'r holl amodau a osodwyd ar drwydded flaenorol ar gyfer Dickens aros yr un fath'.

Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Dydd Llun i Ddydd Sul 07:00 i 00:30

I ddarparu gweithgareddau trwyddadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:
Dydd Llun i ddydd Sul 11:00 i 00:00
(ii) Darparu adloniant a reoleiddir ar ffurf cerddoriaeth a recordiwyd (dan do) a pherfformiad dawns (dan do):
Dydd Llun i Ddydd Sul 11:00 i 00:30
(iii) Lluniaeth Hwyr y Nos (dan do):
Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 00:30

Sylwadau'r Bobl Eraill â Diddordeb

Anerchodd Mr Phipps yr is-bwyllgor am y pryderon a godwyd gan landlordiaid o ran safleoedd yn Heol Charles. Mae'r pryderon yn codi nid yn unig oherwydd gweithrediad hanesyddol ac arfaethedig y safle, ond hefyd o ran meddiannu a defnyddio'r ardaloedd y tu allan; cwsmeriaid yn mynd a dod a staff y drws. Dywedodd Mr Phipps mai ychydig iawn o wybodaeth y mae'r ymgeiswyr wedi'i chyflwyno i gefnogi eu cais.

Dywedwyd, pan roddir ystyriaeth i ddisgrifiad yr eiddo, na ellir ei ystyried fel bwyty mewn unrhyw gyd-destun. Nid oes gwybodaeth wedi ei darparu gan yr ymgeiswyr am y math o fwyd i'w weini, bwydlen diodydd nac unrhyw wybodaeth arall i gefnogi'r haeriad ei fod yn fwyty. Mae amryw o honiadau wedi'u gwneud i gefnogi'r haeriad hwnnw, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u hadlewyrchu yn y Polisi Effaith Gronnol, ond gallai'r cyfeiriad at y soffas godi ymholiad. Fel arfer, byddai'r cais yn nodi bod gwerthu alcohol yn atodol i gymryd bwrdd sylweddol, lle yn y cais hwn mae'n atodol i archebu pryd bwyd.

At hynny, nid yw cwsmeriaid yn cael eu hebrwng i fwrdd. Cwestiynodd Mr Phipps y cais hefyd mewn perthynas ag adloniant a reoleiddir a holodd a oedd hynny'n arwydd o fwyty. Mynegwyd pryder hefyd mewn perthynas â'r gegin ar y safle ac a oedd y gegin mewn gwirionedd yn un a oedd yn gwbl weithredol er mwyn gallu gwasanaethu bwyty.

Nodir bod y defnydd o'r ardal awyr agored wedi'i chyfyngu i 9.00 pm, er nad yw'n glir beth yn union yw'r cyfyngiad hwnnw: dim cwsmeriaid y tu allan; dim alcohol i'w yfed y tu allan; dim ond cwsmeriaid y tu allan pan fyddant yn dymuno ysmygu.

Mynegwyd pryderon ynghylch pa drefniadau a oedd yn cael eu gwneud ar gyfer gwasgaru cwsmeriaid pan fo digwyddiad gyda 60 o bobl ymlaen. Byddai'n deg cyflwyno y byddant i gyd yn gadael ar yr un pryd, ac ymhellach a oedd un person drws yn ddigon wrth ddelio â 60 o bobl.

**Sylwadau'r Ymgeisydd:**

Anerchodd Mr Price'r Is-bwyllgor ac amlinellodd y rhesymau dros derfyniad y drwydded mangre flaenorol, gan ddatgan ei bod yn fater esgeulustod o gofio'r anawsterau gyda chyn-reolwr y busnes, a'i fod wedi mynd yn sâl ac angen 2 lawdriniaeth fawr.

Dywedodd fod Dickens yn fenter hollol wahanol i'r safle blaenorol, bod y safle wedi'i drawsnewid yn chwaethus ac y bydd yn awr yn ystafell de ac yn lle bwyta lle gall cwsmeriaid fwynhau gwydraid o win gyda brechdan neu bryd bwyd. Y cais yw i gopïo'r drwydded flaenorol, ni fu unrhyw faterion gyda'r Pwyllgor na'r Heddlu mewn perthynas â'r drwydded honno.

Esboniwyd i'r Is-bwyllgor fod cynllun busnes newydd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd; byddai dydd Sul yn canolbwyntio ar y teulu; byddai cydweithio â Thwristiaeth Cymru a byddai staff dwyieithog yn cael eu cyflogi; byddai cynnyrch lleol gan ffermwyr lleol yn cael ei gyrchu; byddai'r ffocws ar y farchnad frecwast, ciniawau gweithredol a the'r prynhawn.

O ganlyniad i gwestiynau'r Is-bwyllgor, darparwyd rhagor o wybodaeth:

- Mae'r rheswm dros y cais yn ymwneud ag adloniant a reoleiddir yn seiliedig ar y ffaith y bydd angen weithiau i gynnal digwyddiad preifat, a gellid cael dawnsio pe byddai angen, er mai ychydig iawn o le sydd yna a dim DJ.
- Ni ragwelir y byddai pawb a fyddai'n mynychu digwyddiad yn gadael ar yr un pryd a bod adeiladau eraill yn y cyffiniau ag oriau hwyrach.
- Cadarnhawyd y bydd y tu allan i'r adeilad yn cau am 9.00 pm er bod pryderon ynghylch ble y bydd cwsmeriaid yn ymgasglu pe baent yn dymuno ysmygu. Rhagwelir y byddant yn mynd i flaen y safle, ond ni fyddant yn gallu mynd â'u diodydd y tu allan.

- Mae'r cynllun busnes yn darparu ar gyfer bwyta'n achlysurol drwy'r dydd, bydd cynnig 5 brecwast llofnod, bydd cinio yn canolbwyntio ar salad, cawl a dewisiadau iach eraill, bydd te prynhawn â 5 pryd llofnod gyda'r nos a fydd yn dymhorol ac yn defnyddio cynnyrch lleol. Ni fydd gwasanaeth prydau parod ar gael.
- Ni fydd unrhyw gynigion alcohol, bydd bwydlen win a gwirodydd cyfyngedig. Bydd y prisiau wedi'u cynyddu ychydig.
- Cyn belled ag y mae capasiti yn y cwestiwn, mae 10 – 15 bwrdd sydd â sedd i 4 o bobl, ac mae yna hefyd soffas i ymlacio lle mae modd mwynhau pryd ysgafn a gwydraid o win.
- Mae'r gegin yn gallu, ac wedi, darparu ar gyfer 60 o giniawau dydd Sul yn y gorffennol.

Wrth grynhoi, ychwanegodd Mr Phipps y lle gorau i gwsmeriaid ysmygu byddai yn y man tu allan yng nghefn yr adeilad. Dywedodd hefyd, ar y sail bod y rheolwr a ddarparodd wybodaeth am y cynllun busnes ond wedi ymwneud â'r busnes ers wythnos, ac nad oedd o gwmpas pan gyflwynwyd y cais yn y lle cyntaf, nad oes dim wedi newid. Mae'n cael ei nodi hefyd ar yr adeg hon, fod y prawf eithaf beichus mae'r polisi'n ei orfodi heb gael ei wrthbrofi.

Wrth grynhoi, dywedodd Peter Barry y byddai'n deg dweud nad oedd dim wedi newid ar wahân i'r ffaith bod trwydded y safle wedi dod i ben. Ni wnaed unrhyw gwynion tra bod y safle'n masnachu'n flaenorol. Bu newidiadau ffisegol i'r safle ac i'r fwydlen er mwyn ceisio sefydlogi'r sylfaen gwsmeriaid.

PENDERFYNWYD:  Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, CYMERADWYODD yr Is-bwyllgor y cais, yn amodol ar y canlynol:

(i) Yr amodau a geir yn yr atodlen weithredu;
(ii) Yr amodau y cytunwyd arnynt gyda'r heddlu;
(iii) Diwygiad i'r cais - i gyfyngu ar yr holl weithgareddau trwyddadwy, gan gynnwys darparu adloniant wedi'i reoleiddio a lluniaeth hwyr y nos, i ddod i ben am hanner nos; a
(iv) Bydd y man eistedd y tu allan yn cau am 9 pm, ac eithrio i'w ddefnyddio fel man i gwsmeriaid ysmygu. Ni fydd unrhyw ddiodydd na gweithgareddau trwyddadwy eraill yn cael eu cynnal.

59 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified